Review of Research Assessment : Invitation to Contribute

Response by the University Board for Welsh-Medium Teaching

1. Introduction

1.1 This document is a response on behalf of the University Board for Welsh-Medium Teaching, which contains representatives from all higher education institutions in Wales, including those which are not constituent members of the University of Wales. It does not purport to represent the corporate view of any institution but is the result of consultations among members of the Board and other interested parties. The response has been officially sanctioned by the Chairman of the Board, Mr Gwilym E. Humphreys.

2. Response

2.1 The Board welcomes the opportunity to contribute a response to this review. The Board is aware that institutions and other interested parties will provide detailed views on many of the themes raised in Annex B of the consultative document and has therefore limited its comments to issues which directly impinge upon the Board's responsibilities.

2.2 The Board believes that academic publications in the Welsh language should be considered according to the same criteria as publications in English. Anecdotal evidence suggests that institutions and academic units perceive that this has not been the case in the past. A definitive statement that Welsh-language publications will be considered according to the same criteria as all other submissions would remedy this position.

2.3 The Board appreciates that a number of practical issues, including those arising from the possible translation of material, would arise in consequence of 2.2 above. The Board would therefore welcome an opportunity to enter into discussions on this issue with the Steering Group in order to highlight this and other potential issues that need to be addressed.

2.4 In view of the, possibly, unique situation relating to the Welsh language and academic publications through that medium, the Board suggests that the Funding Councils may consider it appropriate to ensure that at least one member of the Steering Group is qualified to advise on issues relating to Welsh-language academic research and publication. In this context the Board also wishes to highlight the statutory requirements of the Welsh Language Act (1993)

2.5 In view of the potential expansion in the publication of Welsh-language academic papers in electronic form, the Board would welcome a definitive statement on the validity of such publications as part of a submission.

2.6 The Board notes that the Welsh Assembly Government is actively promoting collaboration between institutions in all areas, including academic research. In this context, the Board supports the view that the Steering Group should consider the need to give proper recognition to collaborations and partnerships across institutions and with organisations outside HE.

For more information, please contact:

Dr Ioan Matthews
Welsh-Medium Teaching Development Unit
University of Wales
c/o Myrddin, Trinity College
Carmarthen
SA31 3EP

(01267) 676629
i.a.matthews@cymru.ac.uk

Adolygiad o Asesu Ymchwil: Gwahoddiad i Gyfrannu

Ymateb gan Fwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Trwy Gyfrwng y Gymraeg

1. Cyflwyniad

1.2 Mae'r ddogfen hon yn ymateb ar ran Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg, sydd â chynrychiolaeth o'r holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn aelodau cyflawn o Brifysgol Cymru. Nid yw'r ymateb yn adlewyrchu barn gorfforaethol unrhyw sefydliad ond yn hytrach y mae'n ganlyniad ymgynghori ymysg aelodau'r Bwrdd ag eraill sydd â diddordeb. Rhoddwyd sêl bendith ffurfiol y Bwrdd i'r ymateb gan y Cadeirydd, Mr Gwilym E. Humphreys.

2. Ymateb

2.7 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr adolygiad hwn. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y bydd sefydliadau ac eraill sydd â diddordeb yn darparu sylwadau manwl ar nifer o'r themâu a nodir yn Atodiad B o'r ddogfen ymgynghorol ac mae'r ymateb hwn felly wedi ei gyfyngu i'r materion hynny sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyfrifoldebau'r Bwrdd.

2.8 Cred y Bwrdd y dylai cyhoeddiadau academaidd yn yr iaith Gymraeg gael eu hystyried yng ngoleuni'r un meini prawf â chyhoeddiadau yn y Saesneg. Mae'r dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod sefydliadau ac unedau academaidd o dan yr argraff nad yw hynny wedi digwydd yn y gorffennol. Fel canlyniad, byddai datganiad clir y bydd cyhoeddiadau yn yr iaith Gymraeg yn cael eu trin yn gyfartal ag unrhyw gyhoeddiadau eraill yn werthfawr iawn.

2.9 Mae'r Bwrdd yn derbyn bod nifer o faterion ymarferol yn codi yng nghyd-destun 2.2 uchod, gan gynnwys y rheiny sydd yn ymwneud â chyfieithu deunydd. Byddai'r Bwrdd, felly, yn croesawu cyfle i ymgynghori â'r Grŵp Llywio er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth o'r mater hwn ac o eraill sydd angen eu trafod.

2.10 Yn wyneb sefyllfa unigryw, o bosibl, yr iaith Gymraeg a chyhoeddiadau academaidd drwy'r cyfrwng hwnnw, awgryma'r Bwrdd y dylai'r Cynghorau Cyllido ystyried priodoldeb sicrhau bod o leiaf un aelod o'r Grŵp Llywio yn gymwys i gynghori ar faterion yn ymwneud ag ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, yn ogystal, dymuna'r Bwrdd dynnu sylw at oblygiadau statudol Deddf yr Iaith Gymraeg (1993).

2.11 Gan ystyried y potensial ar gyfer twf sylweddol mewn cyhoeddi erthyglau academaidd yn y Gymraeg ar ffurf electronig, byddai'r Bwrdd yn croesawu datganiad diamwys ar ddilysrwydd cyhoeddiadau yn y ffurf hon fel rhan o gyflwyniad.

2.12 Noda'r Bwrdd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo cydweithio rhyng-sefydliadol ar draws y sector ym mhob maes, gan gynnwys ymchwil academaidd. Yn y cyd-destun hwn mae'r Bwrdd yn gefnogol i'r awgrym y dylai'r Grŵp Llywio ystyried yr angen i roddi cydnabyddiaeth briodol i bartneriaethau rhyng-sefydliadol a phartneriaethau gyda chyrff y tu allan i Addysg Uwch.

Am fwy o fanylion, cysyllter â:

Dr Ioan Matthews
Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg
Prifysgol Cymru
c/o Myrddin, Coleg y Drindod
Caerfyrddin
SA31 3EP

(01267) 676629
i.a.matthews@cymru.ac.uk